**TYSTIOLAETH fforwm i'r PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

**Y Sector AB: Recriwtio a Chadw Staff**

## 1 Cyflwyniad

1 fforwm yw'r corff cenedlaethol sy'n cynrychioli'r 24 o golegau addysg bellach (AB) yng Nghymru. Mae'n elusen addysgol ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Ei genhadaeth yw *'gwneud colegau yn fwy amlwg i bobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau a rhoi cymorth iddynt yn yr ymgyrch barhaus am addysg a hyfforddiant o ansawdd da sy'n anelu at symbylu datblygiad economaidd, lles cymdeithasol a bywyd diwylliannol yng Nghymru*.

2 Mae Bwrdd fforwm yn cynnwys penaethiaid colegau a chadeiryddion corfforaethau, a benodir gan aelod golegau. Mae'n darparu amryfal wasanaethau i'w aelodau gan gynnwys rhwydweithiau, cynadleddau, ymchwil, gwasanaethau ymgynghorol a rhannu arferion da. Mae hefyd yn cydweithio'n agos ag amrywiaeth eang o bartneriaid mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Trwy fforwm, cynrychiolir colegau ar wahanol bwyllgorau, gweithgorau, a grwpiau eraill sy'n dylanwadu ac yn llunio polisi mewn addysg ôl-16 a dysgu gydol oes.

3 Mae fforwm yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar bwnc sy'n peri pryder cynyddol i'r sector addysg bellach (AB), sef recriwtio a chadw staff colegau AB.

4 Mae'r penderfyniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu lefelau cyflogau staff AB dros y tair blynedd nesaf yn un i'w groesawu a bydd yn amlwg yn cael effaith hirdymor ar recriwtio a chadw staff. Mae'r papur hwn yn ymdrin â'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd.

5 At ei gilydd, bydd y papur yn canolbwyntio ar dair thema sy'n gysylltiedig: trosiant cyffredinol staff, pynciau lle ceir prinder a chadw staff.

6 Daw'r dystiolaeth a geir yn y papur o dair ffynhonnell: arolwg gan fforwm o swyddi gwag athrawon, Arolwg Ymlaen Llaw o Sgiliau Colegau Addysg Bellach yng Nghymru 2002 gan Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol Addysg Bellach (FENTO) ac arolwg Cymdeithas y Colegau (AoC) o recriwtio a chadw staff drwy'r Deyrnas Unedig (Atodiad A).

## 7 Swyddi Gwag Athrawon

8 Ar sail ymchwil fforwm (Gorffennaf 2002), mae'r dadansoddiad o drosiant staff yn dangos bod niferoedd swyddi gwag athrawon mewn colegau yn amrywio o 0 – 26 y coleg, neu'n gyfartaledd o 6.6 o swyddi gwag y coleg. Roedd y ffigurau cyfatebol ar gyfer staff cynnal dysgu ar gyfartaledd yn 5.8 o swyddi gwag, ac yn amrywio o 0 - 15.

9 Petai'r ffigurau hyn yn cael eu defnyddio i roi cyfanswm ar gyfer y 24 o golegau yng Nghymru, byddai 158 o swyddi addysgu gwag a 139 o swyddi staff cynnal gwag.

10 At ei gilydd, fodd bynnag, nid oedd trosiant staff addysgu yn cael ei ystyried yn broblem fawr ar hyn o bryd. Nid oedd staff yn eu deugeiniau hwyr a'u pumdegau yn debygol o symud i swyddi eraill neu gymryd y cam o symud i swyddi mewn ysgolion a dalai'n well. At hynny, roedd llawer o ddarlithwyr yn mwynhau'r ethos AB a'r cyfle i weithio ag amrywiaeth eang o ddysgwyr. Mae pryder, fodd bynnag, ynghylch sicrhau staff i gymryd lle'r athrawon profiadol hyn wrth iddynt ymddeol. Datblygir y pwynt hwn isod.

11 Mae rhai colegau yn crybwyll colli staff i ysgolion. Cafwyd adroddiad gan un coleg, er enghraifft, am ddau aelod allweddol o staff yn symud i ysgolion o'r meysydd a oedd yn perfformio orau ganddo – cerddoriaeth a'r celfyddydau perfformio – ac, yn wir, mae'r coleg wedi ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch y pryder hwn. Yn yr ail achos, symudodd y darlithydd i swydd debyg mewn ysgol â chodiad cyflog o £25,000 i £32,000 ac amodau gwasanaeth mwy ffafriol.

12 Dangosodd arolwg gan fforwm o 2,411 o ddarlithwyr amser-llawn a gynhaliwyd yn Chwefror 2002 fod 44 y cant yn 50 oed neu drosodd. Bydd y staff hyn yn ymddeol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Adroddodd o leiaf ddau goleg y byddai 40 y cant o'u staff darlithio yn cyrraedd oedran ymddeol yn y pedair blynedd nesaf. Dim ond 2.6 y cant o'r darlithwyr oedd yn iau na 30 oed ac roedd 18.8 y cant yn 30-39 oed, 35.5 y cant yn 40-49 oed, 39.0 y cant yn 50-59 oed a 5 y cant yn 60 oed a throsodd.

13 Gyda gweithlu sy'n heneiddio fwyfwy, mynegodd pob coleg a ymatebodd bryderon ynghylch anhawster recriwtio staff newydd. At ei gilydd, mae'r nifer o ymgeiswyr am swyddi wedi lleihau. Yn un achos, er enghraifft, mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi wedi haneru dros y tair blynedd diwethaf. Adroddodd rhai bod rhaid rhoi cyfweliad i bob ymgeisydd ond mai un neu ddau yn unig oedd yn cyfateb i'r fanyleb yn aml. Adroddodd un arall fod nifer y ceisiadau yn aml yn isel a safon yr ymgeiswyr yn 'is na'r hyn a ddisgwylir'. Mae ailhysbysebu swydd yn dod yn fwyfwy cyffredin.

14 Dywedodd un coleg fod 23 o swyddi wedi eu hysbysebu er Medi 2001, gyda chyfartaledd o dri ymgeisydd am bob swydd. Adroddodd coleg arall iddynt golli saith athro i addysg uwch yn ystod y flwyddyn a aethai heibio ac adroddodd un arall fod dau o'u staff wedi eu penodi i swyddi addysgu mewn ysgolion yn yr ychydig wythnosau diwethaf.

15 Mae colegau yn draddodiadol wedi denu darlithwyr yn eu 30au ac weithiau yn eu 40au sydd â phrofiad o fyd gwaith. Mae'r arbenigedd galwedigaethol hwn wedi sicrhau bod colegau yn gwybod am y datblygiadau diweddaraf. Mae hi felly'n anarferol canfod athrawon ar gyrsiau cysylltiedig â swyddi mewn adeiladu, plymio ac arlwyo, er enghraifft, nad oes ganddynt brofiad uniongyrchol yn y diwydiannau hyn. At hynny, mae colegau'n dibynnu ar gronfa o staff rhan-amser sy'n gweithio ar hyn o bryd yn y proffesiynau, fel cyfrifeg a'r gyfraith, neu sydd â phrofiad diweddar o weithio ynddynt. Mae peth tystiolaeth fod y ffaith bod cyflogau AB yn llithro'n ôl yn ei gwneud yn fwy anodd recriwtio staff amser-llawn o ddiwydiant er nad oes cymaint o effaith ar hyn o bryd ar recriwtio staff rhan-amser – datblygir y pwynt olaf hwn isod.

**16 Pynciau lle mae prinder**

17 Canfu ymchwil fforwm nifer o feysydd pwnc lle roedd athrawon yn arbennig o brin. Dyma'r meysydd mwyaf cyffredin lle'r oedd prinder:

- TGD/TG/TGCh
- Cyfrifiadura
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cyfrifeg
- Peirianneg Awyrennau
- Gweinyddu Busnes
- Adeiladu
- Plymio

18 Ymhlith y meysydd eraill o brinder a grybwyllwyd gan golegau yr oedd gofal am anifeiliaid, therapi harddwch, peirianneg, Saesneg, daearyddiaeth, sgiliau allweddol, mathemateg, ieithoedd modern, cerddoriaeth, teithio a thwristiaeth a Chymraeg. Mae Arolwg Ymlaen Llaw o Sgiliau FENTO hefyd yn nodi gwyddoniaeth gymhwysol fel pwnc lle ceir prinderau staff.

19 O ran staff cynnal, roedd prinderau yn arbennig yn y meysydd hyn

a. Technegwyr TGD/TG
b. staff cynghori a chyfarwyddo,
c. gofalwyr
d. glanhawyr
e. pob gwaith cysylltiedig â chyfrifiaduron
f.. staff peirianneg
g. Aseswyr NVQ.

20 Roedd dyfyniadau eraill perthnasol gan golegau yn cynnwys:

*"Rydym yn mynd i ddibynnu'n beryglus o drwm ar ganran rhy uchel o staff rhan-amser"*

*"Mae gofynion dwyieithrwydd yn gwneud recriwtio hyd yn oed yn fwy anodd inni"*

*"Dydyn ni ddim fel petaen ni'n denu graddedigion ifanc/diweddar. Mae'r aelod ieuengaf o'n staff yn 34 oed."*

*"Mae'r coleg yn dal i ymdrin â'i orddibyniaeth ar staff a delir fesul awr i gyflwyno meysydd allweddol."*

*"Mae gennym broblemau recriwtio yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc."*

**Staff rhan-amser**

21 Mae manteision a phroblemau ynglŷn â dibyniaeth gynyddol colegau ar ddefnyddio staff addysgu rhan-amser. Mae ymchwil FENTO yn awgrymu bod y penderfyniad i weithio'n rhan-amser yn un cymhleth. Y pedwar rheswm a ddyfynnir amlaf oedd *hyblygrwydd, teulu, ffordd o fyw* a *gwaith proffesiynol arall,* sy'n awgrymu nad oes gwarant o ymrwymiad hirdymor i AB. Roedd crynhoi'r ymatebion cenedlaethol yn awgrymu bod dewisiadau yn debygol o fod â chysylltiad ag oedran. Mae'r athro iau yn gweithio'n rhan-amser yn y gobaith o gael swydd amser-llawn; mae'r athro hŷn yn gweithio'n rhan-amser yn fwy fel mater o ddewis neu ar ôl ymddeol.

22 Er hynny, mae’r rhai a gyflogir ym myd busnes neu mewn sefydliadau eraill (49 y cant o staff addysgu colegau yn ôl arolwg FENTO) yn dod â phrofiad a sgiliau diwydiannol diweddar a throsglwyddadwy gyda nhw i’w swyddi addysgu.

**23 Gyrfa mewn AB**

24 Fel rhan o ymchwil ddiweddar FENTO gwahoddwyd myfyrwyr colegau AB (darpar athrawon addysg bellach posibl) i gymryd rhan mewn dadansoddiad SWOT o safbwynt y sector AB fel dewis o yrfa. Dyma’r canlyniadau:

| | |
|---|---|
| **CRYFDERAU:**<br><br>-Statws proffesiynol<br>-Gallu dod â phrofiad o fywyd a gwaith i’r sector<br>-Hyfforddiant i addysgu<br>-Hyblyg | **GWENDIDAU:**<br><br>-Statws achlysurol<br>-Lleihad yn y cyllid i AB<br>-Cyflogau isel<br>-Dim tâl am waith paratoi |
| **CYFLEOEDD:**<br><br>-Datblygu gyrfa trwy gyfle i gael Datblygiad Proffesiynol Parhaus<br>-Cysylltiadau â Diwydiant<br>-Cyfle i gael swydd â chyflog blynyddol a dyrchafiad | **BYGYTHIADAU:**<br><br>-Risg – Contractau byr a statws achlysurol yn arwain at ansicrwydd ariannol<br>-Newid – cymwysterau, pynciau galwedigaethol mewn ysgolion, cyfuno colegau, consortia darparwyr hyfforddiant<br>-Y ‘rheolwyr’<br>-Cyfleusterau gwael |

**25 Cadw staff**

26 Mae’r setliad cyflog diweddar trwy gyfrwng pecyn £9m i ddarlithwyr a staff cynnal AB, a gyhoeddwyd ar Hydref 24 gan y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn gyntaf yn newyddion da i golegau ar draws Cymru, ac yn ail yn gam cyntaf i sicrhau cydraddoldeb rhwng darlithwyr colegau ac athrawon ysgol.

27 Bydd datblygu cynlluniau i sicrhau’r defnydd mwyaf effeithiol a phriodol o’r cyllid hwn ar gyfer cyflogau AB yn golygu cyfraniad allweddol gan fforwm.

**28 Casgliadau**

29 Mae sialensau recriwtio a chadw yn cynnwys cyfuniad o ffactorau ac yn aml yn ganlyniadau i’r anawsterau a gaiff colegau o ran cynnig cydnabyddiaeth ddigon deniadol yn y gystadleuaeth â mathau eraill o gyfleoedd gwaith.

30 Yn amlach na pheidio, yr arbenigeddau pwnc sy’n anodd cadw staff ynddynt yw’r rhai sy’n anodd recriwtio ar eu cyfer hefyd. Gallai ffyrdd posibl o oresgyn hyn gynnwys ystyried cyfraddau cyflog gwahaniaethol sy’n ffafrio meysydd o brinder, secondiadau i ddiwydiant ac ohono, dyrchafiad effeithiol i wella delwedd colegau AB fel cyflogwyr a gwell telerau ac amodau gwaith. At

hynny, byddai estyn y drefn ‘Croeso Euraid’, lle mae recriwtiaid newydd i’r proffesiwn addysgu AB yn Lloegr yn cael un taliad cymell o hyd at £4,000 i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr, o fudd yng Nghymru. Fel y crybwyllir dan bwynt 5, bydd y setliad cyflogaeth AB yn cael effaith hirdymor ar recriwtio a chadw staff. Yn y tymor byr, bydd angen trafodaethau llawn rhwng fforwm a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y cyflwynir y setliad yn briodol a llwyddiannus er budd staff AB, ac, yn y pen draw, eu dysgwyr.

**fforwm**
**Tachwedd 2002**

**Atodiad A**

**Y sefyllfa yn y Deyrnas Unedig:**

1 Dangosodd ffigurau allweddol o Arolwg yr AoC o Recriwtio a Phrinderau Staff 2002 gynnydd trawiadol yn y nifer o swyddi gwag mewn Colegau AB, gyda thros 3,000 o swyddi athrawon yn wag. Mae hynny’n dangos bod problemau recriwtio a chadw staff i’w cael yn eang y tu allan i Gymru.

- 3,239 o swyddi athrawon Addysg Bellach yn wag ym mis Medi o gymharu â 2,600 ym Medi 2001, sy’n gynnydd o 25 y cant

- Mae’r ganran o swyddi gwag mewn colegau lleol yn awr yn ddwbl yr hyn yw mewn ysgolion, (2.4 y cant mewn colegau o gymharu â 1.2 y cant mewn ysgolion*) *ffigur yr Adran dros Addysg a Sgiliau o Ystadegau Cenedlaethol, “Teachers in Service and Teacher Vacancies: January 2002 (Revised)” 05/08/2002

- Mewn colegau lleol mae’r gweithlu o ddarlithwyr (amser llawn a rhan-amser) yn 134,000* – Y Cyngor Dysgu a Sgiliau - “SIR 2000-2001” (Staff Individualised Record)

- 4,913 o swyddi rheolwyr a staff cynnal yn wag yn 2002 o gymharu â 3,400 yn 2001 sy’n gynnydd o 44 y cant

- 90 y cant o golegau â swyddi athrawon yn wag yn 2002

- 61 y cant o golegau yn cael anawsterau i gadw staff addysgu

- Mae gan y coleg cyfartalog 4 swydd wag ymhlith staff addysgu amser-llawn a 7 swydd wag i staff cynnal amser-llawn

- Ar gyfartaledd mae angen hysbysebu pob swydd fwy nag unwaith

- Mae 83 y cant o’r colegau yn ystyried bod y cyflog isel mewn colegau AB o gymharu â cholegau chweched dosbarth ac ysgolion yn cael effaith ar gadw staff addysgu

- Mae 73 y cant o golegau yn ystyried bod y cyflog is mewn Colegau AB o gymharu â’r sector preifat yn cael effaith ar gadw staff cynnal

- Mae 63 y cant o golegau â swyddi rheoli gwag yn 2002 ac mae 23 y cant yn cael anawsterau â chadw eu staff rheoli

- Mae 48 y cant o golegau yn ystyried bod cadw staff cynnal yn broblem

- Yn y coleg cyfartalog mae trosiant staff cynnal yn 14 y cant, trosiant staff addysgu yn 11 y cant a throsiant rheolwyr y 7 y cant

- Yn y coleg cyfartalog mae trosiant staff yn gyffredinol yn 10 y cant